Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 No. 1361

Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010

Rhoi gwybodaeth

14.—(1) Rhaid i bob person y mae ffurflen i'w llenwi mewn perthynas ag ef o dan Orchymyn y Cyfrifiad roi i'r person rhagnodedig sy'n atebol am lenwi ffurflen unrhyw wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, y mae'n rhesymol i'r person rhagnodedig ofyn amdani er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i bob person rhagnodedig roi i unrhyw benodai unrhyw wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, y mae'n rhesymol i'r penodai ofyn amdani i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i berson y rhoddir gwybodaeth bersonol iddo yn unol â'r Rheoliadau hyn beidio â gwneud y canlynol heb awdurdod cyfreithlon—

(a) defnyddio'r wybodaeth honno; na

(b) ei chyhoeddi na'i mynegi i unrhyw berson arall.